Welsh

A Ellir Ôl-ddyddio fy Mudd-dal Tai a fy Mudd-dal Treth Cyngor?

(Can you backdate my Housing Benefit and Council Tax Benefit?)

Mae'r daflen hon yn rhoi eglurhad ynglŷn ag ôl-ddyddio budd-daliadau. Mae'r rheolau'n genedlaethol a'r un fath ym mha bynnag ardal yr ydych yn byw ynddi. Os nad ydych yn gwybod pa gyngor sy'n gyfrifol am eich ardal chi, gallwch ddod o hyd iddo ar eich bil Treth Cyngor.

Diwygiwyd 6 Hydref 2008

Rwy'n 60 neu'n hŷn. Pryd fydd fy mudd-daliadau'n cychwyn?

Os ydych chi, neu'ch partner, yn hŷn na 60 ac yn gymwys i dderbyn Budd-dal Tai a/neu Fudd-dal Treth Cyngor, fe all gychwyn mewn gwirionedd hyd at 3 mis cyn y dyddiad y gwnaethoch eich cais, cyn belled a bod hawl gennych yn ystod y cyfnod hwnnw. Os ydych yn 60 neu'n hŷn a bod gennych hawl i fudd-dal o ddyddiad cyn y gwnaethoch eich cais, bydd yn cael ei dalu yn awtomatig. Nid ydym angen gwybod pam na wnaethoch gais yn gynharach i ôl-ddyddio budd-dal.

Fel y gallwn ddyfarnu faint o fudd-dal y bydd gennych hawl iddo, bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth o'ch incwm/cyfalaf a'ch atebolrwydd rhent am y cyfnod y dymunwch wneud cais amdano. Os credwch y dylai'ch hawl gychwyn o ddyddiad cynharach, cysylltwch â'ch cyngor lleol os gwelwch yn dda.

Mae gweddill y daflen hon yn egluro ôl-ddyddio i bobl ieuengach na 60.

Rwy'n ieuengach na 60.
Pryd fydd fy mudd-dal yn cychwyn?

Os ydych yn gymwys i dderbyn Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor (neu'r ddau), byddwn fel rheol yn talu budd-dal o'r dydd Llun sy'n dilyn eich cais cychwynnol am ffurflen gais gennym (cyn belled a bod y ffurflen gais yn cael ei dychwelyd o fewn un mis calendr o'r diwrnod i chi gysylltu â ni gyntaf).

Os gwnewch gais am Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor (neu'r ddau) dros y ffôn â'r Ganolfan Byd Gwaith, byddwn yn ystyried dyddiad y cysylltiad cyntaf hwnnw â'r Ganolfan Byd Gwaith fel y dyddiad y gwaetgoch eich cais.

Os ydych yn derbyn Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar incwm), Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans ceisio Gwaith (yn seiliedig ar gyfraniadau), yr un fydd y dyddiad gwneud cais ar gyfer yr holl fudd-daliadau.

Weithiau gallwn dalu budd-dal cyn y dyddiad gwneud cais. Gelwir hyn yn ôl-ddyddio. Yn ôl y gyfraith gallwn ôl-ddyddio cychwyn cais am hyd at 6 mis. Ond mae'n rhaid i chi gael rheswm da dros wneud eich cais yn hwyr. Gelwir hyn yn "reswm da".

Beth sy'n cael ei ystyried fel "rheswm da"?

Byddwn yn ystyried pob cais yn unigol. Mae "rheswm da" yn rheswm a'ch rhwystrodd rhag gwneud cais am fudd-dal yn gynharach. Gall rhesymau da gynnwys yr enghreifftiau isod, yn ddibynnol ar amgylchiadau:

- Roeddech yn wael a neb arall ar gael i wneud eich cais ar eich rhan
- Roeddech yn disgwyl dyfarniad ynglŷn â budd-dal arall
- Fe'ch cynghorwyd yn anghywir gan sefydliad swyddogol i feddwl nad oedd gennych hawl i Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor (neu'r ddau).
- Nid oeddech yn deall y gallech wneud cais, hwyrach oherwydd:
    - eich oedran
    - diffyg profiad o ddelio â'r gyfundrefn fudd-daliadau
    - anhawster ieithyddol
    - anhawster deall dogfennau dyrys; neu
    - unrhyw reswm arall

- Ni wnaethoch gais yn syth ar ôl gadael yr ysbyty, carchar neu ofal tymor hir.
- Nid oeddech yn gallu ymorol am eich materion eich hun, a doedd gennych neb i'ch helpu.
- Bu farw perthynas agos

Canllaw yn unig yw'r enghreifftiau yma i'ch cynorthwyo. Nid ydynt yn rhestr lawn o'r holl resymau posibl. Os bu i chi anghofio gwneud cais, neu nad oeddech yn gwybod y gallech wneud cais, ni fyddai hyn yn rheswm digonol ar ei ben ei hun. Dim ond os ydi'ch rhesymau dros beidio gwneud cais yn ddilys hyd at y diwrnod y gwnaethoch eich cais y gallwn ôl-ddyddio eich budd-dal.

Dyma rai enghreifftiau:

Roeddech yn wael o Ionawr i Fawrth gan allu hawlio budd-dal fis Mawrth yn unig pan oeddech yn well. Ni wnaethoch gais yn gynharach oherwydd nid oedd gennych neb i'ch helpu. Yn yr achos yma, fe allwn ystyried ôl-ddyddio eich budd-dal i Ionawr.

Ond, os oeddech yn wael o Ionawr i Fawrth a heb neb i'ch helpu i wneud cais, ond ni wnaethoch gais tan fis Mai, ni fyddem yn ôl-ddyddio budd-dal i Ionawr oherwydd ni fyddai'r rheswm da wedi parhau o Ionawr hyd Fai.

Sut wyf yn hawlio budd-dal ôl-ddyddiedig?

Os ydych yn meddwl fod gennych reswm da dros wneud cais hwyr, dylech anfon atom yn syth. Gallwch ofyn i'ch cyngor lleol am ffurflen, neu'n syml ysgrifennu atom. Rhaid i chi roi gwybod i ni am ba gyfnod y dymunwch ôl-ddyddio, gan nodi pam fod eich cais yn hwyr. Bydd yn rhaid i ni weld tystiolaeth o'ch incwm, cynilion a thaliadau rhent am y cyfnod ôl-ddyddio, ac unrhyw dystiolaeth sy'n cadarnhau'ch rhesymau (er enghraifft, tystysgrifau meddygol neu lythyrau o'r ysbyty).

Os dymunwch gael cymorth, gofynnwch i'ch cyngor lleol os gwelwch yn dda. Gallwch hefyd gael cymorth gan asiantaethau cynghori, fel y Ganolfan Gynghori. Gallwch ddod o hyd i'w rhifau ffôn, ac asiantaethau cynghori eraill, yn Y Llyfr Ffôn ac yn eich llyfrgell leol, neu trwy gysylltu â'ch cyngor lleol.

Beth sy'n digwydd wedyn?

Yn seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynir gennych, byddwn yn penderfynu a ellir ôl-ddyddio eich budd-dal. Byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi beth yw'n dyfarniad. Os penderfynwn beidio ag ôl-ddyddio eich budd-dal, rhown wybod i chi pam.

Beth os nad wyf yn cytuno â'ch dyfarniad?

Efallai y byddwn yn penderfynu nad yw'ch rhesymau dros ôl-ddyddio eich budd-dal yn ddigon da. Os na chytunwch â'n penderfyniad, dylech ysgrifennu atom gan ofyn i ni ail edrych ar y dyfarniad. Rhaid i chi gysylltu â ni o fewn mis i ddyddiad y llythyr dyfarniad. Gallwch hefyd ein ffonio, ysgrifennu atom, neu ymweld â ni i ofyn am eglurhad am y dyfarniad. Gallwch hefyd ofyn am ddatganiad ysgrifenedig o'r rhesymau, fydd yn rhoi rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r dyfarniad.

Os ydych dal yn anfodlon, gallwch anfon apêl ysgrifenedig at Adran Fudd-daliadau eich cyngor lleol. Yna fe fydd y Gwasanaeth Apeliadau yn barnu'ch apêl mewn gwrandawiad tribiwnlys (gweler y daflen "Beth i'w wneud os credwch fod penderfyniad anghywir wedi ei wneud ynglŷn â'ch Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor" am ragor o wybodaeth).

Ymhle y caf ragor o wybodaeth?

Os ydych angen rhagor o gymorth neu gyngor, cysylltwch â'ch cyngor lleol (Gallwch ddod o hyd i enw'ch cyngor lleol ar eich bil Treth Cyngor.)

Cyngor Annibynnol

Os ydych angen cyngor annibynnol, cysylltwch â'ch Canolfan Gynghori. Gallwch ddod o hyd i'w rhifau ffôn, ac asiantaethau cynghori eraill, yn Y Llyfr Ffôn ac yn eich llyfrgell leol, neu trwy gysylltu â'ch cyngor lleol.

Fformatau eraill

Gallwch gael yr wybodaeth yn y llyfryn hwn mewn print bras, Braille, fersiwn sain ac mewn ieithoedd eraill. Ewch ar ein gwefan www.benefit-leaflets.org am ragor o wybodaeth.

Lluniwyd y daflen hon gan Brosiect Taflenni Cenedlaethol o dan arweiniad Cyngor Dosbarth Dover.
Ymwelwch â www.benefit-leaflets.org am fwy o wybodaeth.